Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Teitl: **Dirprwy Gofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd Goruchwyliol**

Lleoliad: **Tŷ Bedwellte, Stryd Morgan, Tredegar a Safleoedd Cymeradwy, yn cynnwys Safleoedd Crefyddol yn Ardal Blaenau Gwent**

Cyfarwyddiaeth: **Cefnogaeth Gyfreithiol a Chorfforaethol**

Swydd Rhif: **BG00034**

Cyflog: **£25,409 - £28,371pro rata – Gradd 5**

Oriau – Y patrwm gwaith fydd 21 awr yr wythnos, ar sail cyfnod sefydlog tan 31 Mawrth 2024 a hefyd i lanw dros wyliau blynyddol a bod ar gael i weithio fel a phan fo angen dros 7 diwrnod yr wythnos yn cynnwys Gwyliau Banc. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn hyblyg a bod ar gael i weithio ar bob un o 7 diwrnod yr wythnos ac weithiau ar fyr rybudd.

Contract: **Cyfnod Sefydlog tan 31 Mawrth 2024**

Crynodeb o'r Swydd:

Mae Blaenau Gwent yn croesawu ceisiadau ar gyfer Dirprwy Gofrestrydd/Dirprwy Gofrestrydd Goruchwyliol yn ei Wasanaeth Cofrestru. Mae'r Gwasanaeth Cofrestru yn seiliedig yn Nhŷ Bedwellte, Tredegar, adeilad rhestredig Gradd Dau yng ngerddi Plas Bedwellte. Mae'r Gwasanaeth Cofrestru yn darparu amrywiaeth o wasanaethau statudol ac anstatudol. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus rôl weithgar yn y tîm sy'n cofrestru genedigaethau, marwolaethau, priodasau a phartneriaethau sifil sy'n digwydd o fewn Blaenau Gwent, gan ei wneud yn rhan gyfannol o fywydau preswylwyr lleol. Rhan o'r swydd fydd gweithredu mewn Priodasau, Partneriaethau Sifil, trosi Partneriaethau Sifil yn Briodasau a seremonïau Derbyn yn Ddinasyddion Prydeinig yn y Swyddfa Gofrestru a safleoedd cymeradwyo eraill yn cynnwys safleoedd crefyddol o fewn Ardal Blaenau Gwent.

Gellir hefyd gynnig y swydd fel cyfle secondiad. Cyn gwneud cais am hyn fel cyfle secondiad, dylai ymgeiswyr geisio cymeradwyaeth gan eu Rheolwr Llinell i gael eu rhyddhau o'u swydd bresennol. Dim ond i staff parhaol yr Awdurdod mae secondiadau ar gael.

Cymeradwywyd Lwfans Defnyddiwr Car Achlysurol ar gyfer y swydd felly mae angen mynediad i gerbyd ar gyfer dibenion gwaith.

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.

Dyddiad Cau: **16 Mawrth 2023**- 12:00am, canol nos

Dyddiad Cyfweliadau: **28 Mawrth 2023**